# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 348A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan John Roberts a Rob Hathaway o dan gyfarwyddyd Alan Morris.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Diben yr adroddiad hwn | 4 |
| Mae'r Awdurdod yn parhau i wella llawer o agweddau ar y Parc ac mae wedi ymateb yn effeithiol i doriadau ariannol, er y gallai wneud rhagor i ddatblygu rhai prosesau ategol | 5 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 6 |
| Adroddiad manwl | 7 |
| Roedd yr Awdurdod yn cefnogi bioamrywiaeth a dulliau cynaliadwy wrth ymgymryd â'i waith ond methodd â chyflawni targedau o ran yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | 7 |
| Gwerthusodd yr Awdurdod ei berfformiad a chyflwynodd adroddiad arno a chyhoeddodd ei gynlluniau gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol | 11 |
| Mae ymateb yr Awdurdod i'r gostyngiad mewn cyllid wedi elwa o ddull gweithredu cynhwysol a chraffu effeithiol, ond gallai rhai prosesau ategol gael eu datblygu ymhellach | 13 |
| Mae'r Awdurdod yn mabwysiadu dull cynhwysol o lywodraethu ac mae'n helpu i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ond nid yw prosesau rheoli perfformiad, yn enwedig o ran ei wasanaeth cynllunio, yn gwneud defnydd digonol o ddata cymharol | 17 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 19 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 20 |
| Atodiad 3 – Asesiad o berfformiad 2013-14 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 22 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 24 |
| Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 | 26 |

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) ers i'r adroddiad diwethaf o'i fath gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol Comisiynydd y Gymraeg. Nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn yr Awdurdod gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

3 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn yr adroddiad hwn a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

4 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

5 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Dyleswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Mae'r Awdurdod yn parhau i wella llawer o agweddau ar y Parc ac mae wedi ymateb yn effeithiol i doriadau ariannol, er y gallai wneud rhagor i ddatblygu rhai prosesau ategol

6 Canfuom fod yr Awdurdod wedi cefnogi bioamrywiaeth a dulliau cynaliadwy wrth ymgymryd â'i waith yn 2013-14 ond methodd â chyflawni targedau o ran yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol. Yn benodol:

- a cyflawnwyd pob un o fesurau llwyddiant yr Awdurdod o ran gwarchod a gwella bioamrywiaeth;
- b gwnaeth yr Awdurdod gyfraniad defnyddiol tuag at hyrwyddo byw'n gynaliadwy a thrafnidiaeth gynaliadwy, cadernid cymdeithasol a balchder cymunedol; a
- c chyfrannodd absenoldeb hirdymor swyddog oherwydd salwch at y methiant i gyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau ynglŷn ag amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.

7 Yn ogystal, canfuwyd y canlynol:

- a gwerthusodd yr Awdurdod ei berfformiad a chyflwynodd adroddiad arno a chyhoeddodd ei gynlluniau gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol; ac
- b mae ymateb yr Awdurdod i'r gostyngiad mewn cyllid wedi elwa o ddull gweithredu cynhwysol a chraffu effeithiol, ond gallai rhai prosesau ategol gael eu datblygu ymhellach.

8 Fel rhan o'n gwaith ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru i asesu'r graddau y maent yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon â llai o arian, canfuom fod yr Awdurdod yn mabwysiadu dull cynhwysol o lywodraethu ac mae'n helpu i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ond nid yw prosesau rheoli perfformiad, yn enwedig o ran ei wasanaeth cynllunio, yn gwneud defnydd digonol o ddata cymharol.

9 Yng ngoleuni'r uchod, ac yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ond heb fod yn gyfyngedig iddo, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2015-16.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

12 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i Awdurdodau yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion perthnasol mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5.

13 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn ond nodir dau gynnig ar gyfer gwella isod.

| Chynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Adeiladu ar welliannau diweddar yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau corfforaethol drwy ddatblygu proses ffurfiol sydd hefyd yn nodi ac yn rheoli risgiau i wasanaethau. |
| C2 | Cynnwys staff ac aelodau mewn trafodaeth ynglŷn â sut y gellid gwella adroddiadau i'r aelodau. |

Adroddiad manwl

## Roedd yr Awdurdod yn cefnogi bioamrywiaeth a dulliau cynaliadwy wrth ymgymryd â'i waith ond methodd â chyflawni targedau o ran yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol



14 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar berfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny a nodwyd gan yr Awdurdod fel amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a gasglwyd gan yr Awdurdod a allai ddangos pa un a gyflawnwyd yr amcanion hyn ai peidio. Trafodir unrhyw amcanion gwella a ganolbwyntiodd ar faterion a oedd yn ymwneud â'i wasanaeth cynllunio yn gryno yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn yr adran sy'n crynhoi'r gwaith penodol a gynhaliwyd gennym mewn perthynas â gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod.

15 Mae pob un o'r amcanion gwella a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2013-14 yn gysylltiedig ag un neu fwy o'r chwe Thema Allweddol yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sydd, yn eu tro, wedi cael eu mabwysiadu'n chwe nod corfforaethol yr Awdurdod. Mae cysylltu'r nodau a'r amcanion hyn â'i gilydd yn helpu i roi ffocws clir i'r Awdurdod er mwyn sicrhau gwelliant. Mae pob un o bedwar amcan gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14 yn nodi'n benodol bwysigrwydd partneriaethau, hwyluso, camau gweithredu ymarferol a swyddogaeth gynllunio'r Awdurdod wrth gyflawni pob amcan.

## Cyflawnwyd pob un o fesurau llwyddiant yr Awdurdod o ran gwarchod a gwella bioamrywiaeth

16 Mabwysiadwyd gwarchod a gwella bioamrywiaeth fel amcan gwella ar gyfer 2013-14 hefyd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod, gan mai dyheadau i'w cyflawni yn y tymor hwy yw'r rhain, y gall fod yn anodd casglu tystiolaeth a all ddangos bod y nodau hyn wedi'u cyflawni. Serch hynny, mae'r mesurau llwyddiant a ddewiswyd gan yr Awdurdod yn cefnogi dadl bod yr Awdurdod yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau hyn.

17 Cyflawnodd yr Awdurdod bedwar o blith y pum mesur llwyddiant a fabwysiadwyd ganddo a, thrwy nodi cyllid amgen, llwyddodd i gyflawni'r mesur llwyddiant arall i bob diben. Roedd y mesurau llwyddiant hyn yn cynnwys asesu cynnydd ar brosiectau gwarchod safleoedd, sefydlu trefniadau goruchwylio ar gyfer Ardal Gadwraeth Arbennig, cynorthwyo gyda cheisiadau o dan gynllun Glastir Uwch Llywodraeth Cymru[2], a sicrhau bod tirwedd a greithiwyd pan osodwyd pibell nwy yn cael ei unioni yn unol â'r amodau a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Er mai aflwyddiannus fu cais yr Awdurdod am arian gan y Loteri Dreftadaeth ar gyfer ei brosiect rheoli ucheldir, llwyddodd i sicrhau arian amgen o Gronfa Adfer Natur Llywodraeth Cymru[3].

2 Cynllun wedi'i dargedu at ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau gwelliannau amgylcheddol.
3 Ar gael i brosiectau sy'n mynd i'r afael â dirywiad mewn bioamrywiaeth.

## Gwnaeth yr Awdurdod gyfraniad defnyddiol tuag at hyrwyddo byw'n gynaliadwy a thrafnidiaeth gynaliadwy, cadernid cymdeithasol a balchder cymunedol

18 Wrth ddewis galluogi byw'n gynaliadwy, cadernid cymdeithasol, a balchder cymunedol fel amcan pwysig ar gyfer 2013-14, nododd yr Awdurdod ei uchelgais ehangach ynglŷn â sut y gall sefydliad cymharol fach geisio cyfrannu at ansawdd bywyd, nawr ac yn y dyfodol. Roedd y mentrau a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r amcan hwn yn eang eu cwmpas ac yn canolbwyntio ar yr agwedd 'galluogi' yn bennaf. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys y canlynol:

a mabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol;

b datblygu fframwaith ar gyfer Cynlluniau Pentref[4] a hwyluso gweithdy cysylltiedig â Chynghorau Cymuned a Thref; cynyddu nifer y cynghreiriau gwledig gweithredol o wyth yn 2012-13 i 13 yn 2013-14;

c cynnwys 28 o Gynghorau Cymuned yn y gwaith o roi Cynllun Gweithredu Siarter Cynghorau Cymuned ar waith; a

ch helpu i sicrhau bod hyfforddiant achrededig wedi'i ddarparu i 27 o unigolion difreintiedig drwy'r rhaglen Sgiliau Gwledig.

19 Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) hirsefydledig rhwng yr Awdurdod a Chwmni Buddiannau Cymunedol Green Valleys yn parhau i ddwyn ffrwyth. Yn 2013-14, bu'r CLG hwn yn allweddol o ran sicrhau bod 69 hectar o goetir wedi cael ei reoli'n weithredol a bod 67$m^3$ o danwydd coed a 750kg o olosg wedi cael eu cynhyrchu. Er mai dim ond o ran cynhyrchu golosg y rhagorodd yr Awdurdod ar ei darged, mae'r canlyniadau hyn yn cyfrannu tuag at gyflawni amcan gwella'r Awdurdod[5].

20 Yn ystod 2013-14, roedd yr Awdurdod wedi cynnwys amcan gwella gyda'r nod o annog a gwella'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy gan ymwelwyr. Parhaodd yr Awdurdod â'i hyfforddiant gyda busnesau lleol ar y defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu busnesau i roi gwybodaeth i ymwelwyr am yr opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn lleol. Er i'r Awdurdod gyrraedd llai o fusnesau nag a wnaeth yn 2012-13 ac er iddo fethu â chyrraedd ei darged o hyfforddi 24 o bobl, ymgysylltodd ag 21 o bobl yn ystod pum cwrs hyfforddiant.

21 Yn ystod 2013-14, parhaodd yr Awdurdod i gefnogi a helpu i ariannu gwasanaeth Bws y Bannau. Mae Bysiau'r Bannau yn cwrdd yn nherfynfa fysiau Aberhonddu ac yna'n gadael i fynd i gyrchfannau ym mhob rhan o Fannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Du. Ar ôl diwrnod llawn allan, mae'r bysiau yn dychwelyd i'r derfynfa. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i ymwelwyr ddarganfod y Parc Cenedlaethol mewn ffordd fwy cynaliadwy. Cynyddodd nifer y teithwyr dros 18 y cant o'r 10,776 a gyflawnwyd yn 2012-13, gan ragori ar y targed o 11,000 yn 2013-14.

4 Nod Cynllun Pentref (a elwir weithiau'n gynllun cymuned neu blwyf) yw mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn seiliedig ar farn trigolion ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig.

5 Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, nid oedd yr Awdurdod mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad ar ei berfformiad mewn perthynas â lleihau allyriadau $CO_2$.

22 Fel yn achos y flwyddyn flaenorol, gwnaeth yr Awdurdod baratoi a dosbarthu 30,000 o lyfrynnau amserlenni bach a llwyddodd i gyflawni ei darged o gynhyrchu fideo sy'n hyrwyddo'r defnydd o gyswllt T4 TrawsCymru rhwng Caerdydd a'r Drenewydd, sy'n cynnig teithio ecogyfeillgar a thocynnau sy'n rhoi gwerth am arian.

## Cyfrannodd absenoldeb hirdymor swyddog oherwydd salwch at y methiant i gyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau ynglŷn ag amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc

23 Nododd yr Awdurdod nifer o fesurau llwyddiant a allai ei helpu i ddangos i ba raddau roedd wedi cyflawni ei amcanion gwella o warchod, gwella a hyrwyddo amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc yn ystod 2013-14. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, pennodd dargedau iddo'i hun ar gyfer pob un o'r mesurau hyn. Yn anffodus, methwyd â chyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau hyn. Mewn rhai achosion, roedd perfformiad dipyn yn is na'r hyn a ragwelwyd. Ymhlith yr enghreifftiau mae methiant i leihau nifer yr adeiladau mewn perygl, yn erbyn targed o wyth a methiant i gwblhau unrhyw arfarniadau o ardaloedd cadwraeth yn erbyn targed o gwblhau dau.

24 Bu salwch hirdymor aelod o staff yn ffactor sylweddol o ran anallu'r Awdurdod i gyflawni'r targedau hyn. Yng nghyd-destun y gostyngiad mewn adnoddau staff, penderfynodd yr Awdurdod ganolbwyntio ei waith ar weithgareddau eraill a oedd yn ymwneud â'r mesurau llwyddiant eraill. Roedd yr Awdurdod yn gallu dangos rhywfaint o gynnydd yn y meysydd hyn. Ymhlith yr enghreifftiau mae cynyddu nifer yr adeiladau rhestredig a gafodd arian grant o saith yn 2012-13 i'w darged o wyth yn 2013-14 a chyflawni ei darged o gynnal un diwrnod treftadaeth. Cynyddodd yr Awdurdod ganran y dystiolaeth ffotograffig o Henebion Rhestredig o 44 y cant i 69 y cant, gan ragori ar ei darged o 64 y cant. Cynhelir y gwaith hwn mewn cydweithrediad â CADW[6], gyda'r Awdurdod yn defnyddio gwirfoddolwyr yn llwyddiannus.

6 CADW yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

## Gwerthusodd yr Awdurdod ei berfformiad a chyflwynodd adroddiad arno a chyhoeddodd ei gynlluniau gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol

25 Ym mis Rhagfyr 2014 rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod wedi archwilio Cynllun Gwella'r Awdurdod yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, nododd y dystysgrif hefyd fod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

26 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- a cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- b cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- c drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- ch chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

27 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

28 Ym mis Mehefin 2014 rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod wedi archwilio Cynllun Gwella'r Awdurdod yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, nododd y dystysgrif fod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

29 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- a wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- b gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- c gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

30 Mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau’r flwyddyn ariannol y mae’n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn. Mae’r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi’r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

31 Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o’r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Mae ymateb yr Awdurdod i'r gostyngiad mewn cyllid wedi elwa o ddull gweithredu cynhwysol a chraffu effeithiol, ond gallai rhai prosesau ategol gael eu datblygu ymhellach

32 Fel y nodwyd yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, roedd pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn wynebu toriadau cyllidebol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15 a thu hwnt. Cafodd yr Awdurdod ei hysbysu y bydd cyfanswm ei gyllideb ar gyfer 2015-16 bron £173,000 yn llai na'r hyn a fu yn 2014-15, sy'n cyfateb i ostyngiad o 4.15 y cant, sy'n sefyllfa ychydig yn well na'r gostyngiad o 4.3 y cant a ragwelwyd gan yr Awdurdod.

33 Fodd bynnag, nodwyd yn glir yn y llythyr a oedd yn hysbysu'r Awdurdod am y ffigur hwn y gall grant refeniw i'r Awdurdod, fel yn achos y ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru, gael ei leihau yn ystod y flwyddyn, a ychwanegodd rywfaint o ansicrwydd. Roedd y gostyngiad hwn yn ystod y flwyddyn yn nodwedd o ddyraniad ariannol 2014-15 yr Awdurdod. Cafodd dyraniad cyfalaf yr Awdurdod ei dynnu'n ôl yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15 ond rhoddwyd arian grant ychwanegol yn ei le. Roedd yr arian grant ychwanegol bron £12,000 yn fwy na'r arian cyfalaf a dynnwyd yn ôl. Ni fydd yr Awdurdod yn cael unrhyw arian cyfalaf yn 2015-16 felly bydd angen dod o hyd i arian ar gyfer unrhyw brosiectau cyfalaf o gyfraniadau refeniw o hyd.

34 Ar ddiwedd 2014-15, rhoddwyd grant Mynediad gwerth £161,000[7], a oedd yn cynnwys elfen o arian cyfalaf, gan Lywodraeth Cymru ac fe'i defnyddiwyd gan yr Awdurdod i helpu i wrthbwyso'r gostyngiad mewn cyllid mewn meysydd eraill. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu grant Mynediad ychwanegol ar gyfer 2015-16. Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy'r Awdurdod wedi cael ei chynnal ar £175,000 ar gyfer 2015-16.

35 Mae'r Awdurdod wedi diweddaru ei gynllun ariannol tair blynedd, gan adlewyrchu'r toriadau disgwyliedig yn arian Llywodraeth Cymru. Er bod cryn ansicrwydd ynglŷn â lefelau ariannu yn y dyfodol i bob awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru, mae cynllun ariannol tymor canolig sy'n cynnwys nifer o senarios yn dod yn gynyddol bwysig i'r Awdurdod fel modd i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu cynllun ariannol tymor canolig cynhwysfawr i'w helpu i ystyried opsiynau ynglŷn â sut y gellid darparu gwasanaethau yn y tymor hwy.

36 Roedd fforwm Cyfeiriadau'r Dyfodol yr Awdurdod yn cynnwys aelodau a swyddogion mewn ystyriaeth fanwl o opsiynau a blaenoriaethau cyn cytuno ar ddull o wneud yr arbedion angenrheidiol.

37 Oherwydd maint y toriadau cyllidebol a oedd yn ofynnol yn 2014-15 roedd angen dod o hyd i arbedion i gyflogau staff, a arweiniodd, bron yn anochel, at ostyngiad mewn lefelau staffio. Ymhlith yr enghreifftiau o swyddi a ddilëwyd mae:

a Swyddog Gwybodaeth;

b Technegydd Cynllunio (Polisi);

c Cynorthwyydd Arlwyo;

7 Grant gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad ehangach i gefn gwlad ac ardaloedd arfordirol.

ch Warden Ardal Cynorthwyol;

d swyddog cyfreithiol;

dd dau Gynorthwyydd Gwybodaeth rhan-amser; ac

e Uwch Swyddog Cynllunio rhan-amser.

38 Mae’r Awdurdod wedi rhoi nifer o fesurau arbed costau ychwanegol ar waith, gan gynnwys:

a tynnu cymorth ariannol yn ôl i wasanaeth Bws y Bannau;

b cau Canolfan Wybodaeth y Fenni ac ymgorffori’r cyfleuster hwnnw yng nghanolfan gymunedol ac ymwelwyr Ysgubor y Degwm gerllaw[8];

c estyn y CLG ar gyfer gwaith cyfreithiol allanol i gwmpasu meysydd ychwanegol;

ch gosod gwaith dylunio graffig ar gontract allanol;

d estyn y cylch ar gyfer ariannu meddalwedd a chaledwedd TG o dair blynedd i bum mlynedd a symud y gyllideb i’r canol; a

dd chynyddu’r defnydd o wirfoddolwyr.

39 Er mwyn ymdrin yn well a’r pwysau ariannol symudodd yr Awdurdod i’r rhagdybiaeth na fyddai swyddi gwag yn cael eu llenwi ond y byddai’n rhaid i geisiadau i lenwi swyddi gwag gael eu cyflwyno i Dîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod i’w hystyried. Yn yr un modd, mae’n rhaid i unrhyw hawliad am gydnabyddiaeth ychwanegol o ganlyniad i gynyddu cyfrifoldebau swydd gael ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol erbyn hyn. Os caiff yr hawliad ei gymeradwyo, mae’n rhaid i’r Cyfarwyddwr perthnasol ariannu’r costau ychwanegol o gyllideb y gyfarwyddiaeth. Gwnaeth yr Awdurdod hefyd haneru ei gyllideb ar gyfer hyfforddiant staff ond, hyd yma, nid oes unrhyw geisiadau am hyfforddiant wedi cael eu gwrthod oherwydd adnoddau annigonol.

40 Gostyngodd cyfradd absenoldeb oherwydd salwch staff yr Awdurdod i 2.26 y cant yn 2013-14 o 3.3 y cant yn 2012-13 ac roedd yn is na’r gyfradd yn y ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru. Mae adran adnoddau dynol yr Awdurdod wedi dadansoddi’r ffigurau hyn ac mae’n fodlon nad oes unrhyw ran benodol o’r sefydliad lle mae absenoldeb oherwydd salwch yn broblem sylweddol.

41 Ym mis Mawrth 2014 cyhoeddwyd adolygiad gennym o’r ffordd y mae’r Awdurdod yn rheoli asedau[9]. Daeth yr adolygiad hwnnw i’r casgliad bod ‘cyfrifoldeb corfforaethol annatblygedig, ynghyd â pholisïau nad ydynt yn cefnogi’r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol, yn tanseilio trefniadau rheoli asedau’r Awdurdod’ gan nodi rhai cynigion ar gyfer gwella. Er nad yw’n uniongyrchol gysylltiedig â’r cynigion hynny, mae’r Awdurdod wedi cydnabod y potensial i wneud arbedion drwy leihau’r gofod a ddefnyddir ganddo yn ei bencadlys presennol yn Aberhonddu. Byddai hyn yn golygu ail-negodi ei drefniadau prydles â Heddlu

8 Gweithrediad ar y cyd â Chyngor Sir Fynwy, Cyngor Tref y Fenni a gweithredwr masnachol.
9 **Adolygiad o Drefniadau Rheoli Asedau: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Dyfed Powys. Daeth y brydles ffurfiol i ben dros ddwy flynedd yn ôl ond, tan yn ddiweddar, nid yw'r Awdurdod wedi cael fawr ddim llwyddiant o ran trafod y mater hwn gyda'r heddlu. Mae cynnydd yn cael ei wneud ar y mater hwn bellach.

42 Er bod yr Awdurdod yn llwyddo i ymateb i doriadau cyllidebol ar hyn o bryd, cydnabu'r aelodau y siaradwyd â hwy fod gan yr Awdurdod lai o hyblygrwydd erbyn hyn i fanteisio ar gyfleoedd a all godi. Yn yr un modd, efallai y bydd yr Awdurdod yn llai parod i gymryd risgiau, er y gallai fod potensial i wneud gwelliannau i'r ffordd y darperir gwasanaethau.

43 Cyflwynodd yr Awdurdod fformat adrodd newydd ar gyfer ei gofrestr risg yn ystod 2014. Mae'r fformat newydd bellach yn cynnwys gwybodaeth am y rhesymeg dros wneud unrhyw newidiadau i lefelau risg. Mae Pwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod yn monitro cynnydd ynglŷn â'r gofrestr risg ac mae'n cael ei hadolygu gan Dîm Rheoli ar y Cyd yr Awdurdod o leiaf unwaith y flwyddyn a chan Dîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod bob chwarter. Fodd bynnag, dim ond ar risgiau corfforaethol y mae cofrestr risg yr Awdurdod yn canolbwyntio, ac nid oes unrhyw broses ffurfiol o nodi a monitro risgiau i wasanaethau, heblaw am ddisgwyliad y dylai cyfarwyddwyr fod yn ymwybodol o risgiau perthnasol i wasanaethau. Fodd bynnag, caiff risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau penodol eu monitro fel rhan o'r broses o reoli'r prosiect.

44 Teimlai'r aelodau y siaradwyd â hwy eu bod bob amser yn cael yr hyfforddiant yr oedd ei angen arnynt a'i fod yn effeithiol o ran cyflawni'r canlyniadau a ragwelwyd. Bu cais yr Awdurdod i adnewyddu Siarter Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn llwyddiannus, ac fe'i dyfarnwyd ym mis Rhagfyr 2014. Yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, cyfeiriwyd gennym at yr argymhellion ynglŷn â chydnabyddiaeth aelodau Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru (y Panel). Mae rhai o aelodau'r Awdurdod yn parhau i ddewis peidio â derbyn y codiadau y mae hawl ganddynt i'w cael, a hynny'n rhannol am y byddai hyn yn rhoi'r neges anghywir i staff yr Awdurdod ar adeg o gyfyngiadau cyllidebol.

45 Mae Pwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod wedi ailddatgan ei ymrwymiad i gynnal un adolygiad craffu bob blwyddyn o amcan gwella o'r flwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad tebyg bob blwyddyn o un maes gwaith o blith holl weithgareddau'r Awdurdod. Mae'r aelodau y siaradwyd â hwy o'r farn bod yr adolygiadau hyn yn werthfawr iawn er eu bod yn mynd â llawer o amser aelodau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod ymwneud cyfranogwyr allanol â'r adolygiadau hyn yn ffordd adeiladol o ymdrin â'r broses graffu. Mae adolygiadau sydd eisoes wedi'u cwblhau neu sydd ar y gweill yn cynnwys adolygiadau o gadernid cymdeithasol a thrafnidiaeth gynaliadwy.

46 Nid yw diddymu tîm craffu Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar yr Awdurdod cymaint ag y gallai fod wedi effeithio ar awdurdodau eraill, a hynny'n bennaf am fod yr Awdurdod wedi manteisio'n ddi-oed ar y cymorth a oedd ar gael gan y tîm hwnnw pan gafodd ei gynnig yn gyntaf ac ar adeg pan oedd yr Awdurdod ar gam datblygedig o ran datblygu agweddau megis gweddarlledu ei gyfarfodydd. Yn y tymor hwy, mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd llai o opsiynau allanol o ran cefnogi datblygiad aelodau.

47 Fel rhan o'i ymrwymiad i gefnogi trefniadau llywodraethu da, mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu system Modern Gov[10] yn ddiweddar. Er gwaethaf rhai problemau cychwynnol, yr arwyddion cynnar yw bod aelodau a'u cymorth gweinyddol yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r cyfraniad a wna tuag at brosesau gwneud penderfyniadau ac amseroldeb adroddiadau. Mae'r Awdurdod yn parhau i ychwanegu at nifer y nodweddion Modern Gov y mae'n eu defnyddio.

48 Mewn sesiwn grŵp ffocws a gynhaliwyd gennym gyda rhai o aelodau'r Awdurdod, nodwyd bod hyd a fformat adroddiadau i bwyllgorau yn broblem o bosibl. Teimlai aelodau y gallai fformat adroddiadau fod yn fwy hwylus i ddefnyddwyr, a fyddai'n cefnogi gwell prosesau gwneud penderfyniadau. Nid oedd rhai o'r staff y siaradwyd â hwy yn cyd-fynd â hynny. Yn yr un modd, clywsom farnau gwahanol ynglŷn â'r graddau y gellid ymdrin â materion a drafodir gan Dîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod yn fwy priodol ar lefel cyfarwyddiaeth.

## Er bod Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod a fabwysiadwyd yn ddiweddar a phenodiad Swyddog y Gymraeg newydd yn ddatblygiadau calonogol, nid yw gwefannau'r Awdurdod yn gwbl ddwyieithog

49 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

50 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran rhoi'r cynllun iaith ar waith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

51 Nododd y Comisiynydd, fel y llynedd, nad oedd pob rhan o wefan yr Awdurdod, na'r wefan newydd a sefydlwyd mewn partneriaeth â'r asiantaeth dwristiaeth leol, yn ddwyieithog. Mae'r oedi yn parhau i fod yn destun trafodaeth rhwng yr Awdurdod a'r Comisiynydd. Ni chynhaliodd Gweithgor y Gymraeg unrhyw gyfarfodydd yn ystod 2013-14 ond penodwyd Swyddog y Gymraeg newydd a threfnwyd cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer 2014-15. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol sy'n cynnwys amod, er mwyn caniatáu datblygiad mewn ardal Gymraeg ei hiaith, fod yn rhaid profi na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar nodweddion ieithyddol yr ardal.

10 System rheoli penderfyniadau pwyllgorau sy'n defnyddio technoleg fodern.

## Mae'r Awdurdod yn mabwysiadu dull cynhwysol o lywodraethu ac mae'n helpu i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ond nid yw prosesau rheoli perfformiad, yn enwedig o ran ei wasanaeth cynllunio, yn gwneud defnydd digonol o ddata cymharol

52 Fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i adolygu gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod manteisiwyd ar y cyfle i ystyried ymhellach ymagwedd yr Awdurdod tuag at lywodraethu, rheoli perfformiad a datblygu cynaliadwy. Nodir manylion ein canfyddiadau yn gryno yn y paragraffau canlynol a, lle y bo'n berthnasol, maent wedi llywio agweddau eraill ar yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn.

53 Mae trefniadau llywodraethu yn yr Awdurdod yn cael eu hatgyfnerthu drwy fanteisio ar gyfleoedd i ennyn diddordeb rhanddeiliaid yng ngwaith pwyllgorau'r Awdurdod. Er enghraifft, caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy eu gweddarlledu, a hefyd gyfarfodydd eraill yr Awdurdod. Gwahoddir aelodau'r cyhoedd i bleidleisio er mwyn penderfynu pa un o amcanion gwella'r Awdurdod a ddylai fod yn destun adolygiad manwl gan ei Bwyllgor Archwilio a Chraffu. Pan fydd pwnc penodol wedi'i ddewis, gwahoddir aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr sefydliadau allanol perthnasol i gymryd rhan weithredol yn y broses adolygu honno.

54 Mae rhaglen hyfforddiant datblygiad aelodau'r Awdurdod yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod modiwlau yn cael eu cynnwys sy'n cwmpasu meysydd megis cytundebau Adran 106, y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r cymysgedd o aelodau o fwy nag un cyngor, ynghyd ag enwebeion gan Lywodraeth Cymru, yn helpu i sicrhau bod gwaith yr Awdurdod yn anwleidyddol.

55 Mae gwelliannau yn y ffordd y rheolir perfformiad yn yr Awdurdod wedi cyfrannu at welliannau yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn gorfodi materion cynllunio a pha mor gyflym y gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae aelodau wedi cael dylanwad cryf yn hyn o beth, gan fabwysiadu targedau heriol, gyda'r nod o ysgogi gwelliannau.

56 Mae gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod, ynghyd â gwasanaethau eraill yr Awdurdod, yn cynnal arfarniadau o berfformiad staff bob chwarter. Mae'r system wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae'n rhoi cyfle i reolwyr drafod cynnydd ar berfformiad gydag aelodau unigol o staff. Caiff y ffordd hon o reoli perfformiad ei hategu gan gyfarfodydd wythnosol â'r Cyfarwyddwr Cynllunio ac adroddiadau cyllidebol misol.

57 Er bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei monitro'n rheolaidd gan staff a chyflwynir adroddiadau i'r aelodau, gallai'r Awdurdod wneud rhagor i ddeall sut y gellid gwella perfformiad ei wasanaeth cynllunio drwy gymharu ei hun ag eraill a dysgu ganddynt. Caiff yr agwedd hon, ynghyd â mwy o wybodaeth am gymharu costau, ei thrafod yn fanylach yn ein hadroddiad arfaethedig ar wasanaeth cynllunio'r Awdurdod.

58 Hyrwyddir datblygu cynaliadwy gan yr Awdurdod mewn sawl ffordd. Fel yn achos pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Roedd Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod yn cynnwys yr asesiad gofynnol o allu amgylcheddol ac, yn 2013-14, adeiladwyd 31 o dai fforddiadwy o fewn ffiniau'r Parc, sy'n sylweddol fwy nag yn y ddau barc cenedlaethol arall yng Nghymru.

59 Mae’r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei defnyddio gan yr Awdurdod i gyfrannu tuag at gost prosiectau lleol a all wella ansawdd bywyd a chadernid cymdeithasol cymunedau lleol. Yn 2013-14, mae’r Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi cefnogi’r broses o weithredu 33 o brosiectau ac wedi creu neu wedi diogelu 32 o swyddi. Mae enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd gan yr Awdurdod yn cynnwys cynlluniau ynni dŵr cymunedol, Grŵp Coetir Cymuned Llangadog, Neuadd Gymunedol a Chanolfan Ymwelwyr Myddfai a Chwmni Masnachu Myddfai. Mae pob £1 o arian grant yn denu £3 o ffynonellau eraill ac mae pob £1 o ffynonellau cyhoeddus yn denu £5.42 o’r sector preifat.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol o'r graddau y mae awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, mae'n ofynnol i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Carl Sargeant, Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Alan Morris, Rheolwr
John Roberts, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o berfformiad 2013-14 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn pennu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad yn nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn cadarnhau a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Carl Sargeant, Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Alan Morris, Rheolwr
John Roberts, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr J Cook
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

Annwyl John

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Awdurdod y Parc â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Awdurdod y Parc yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau Awdurdod y Parc i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol Awdurdod y Parc. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau Awdurdod y Parc yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2014. Roedd y prif faterion a gododd fel a ganlyn:

- Roedd un ‘camddatganiad nas cywirwyd’ a oedd yn ‘amherthnasol’ mewn perthynas â’r dosbarthiad (rhwng gwariant cyfalaf a gwariant refeniw) o daliad grant i brifysgol am £12,700.

- Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Roedd y papurau gwaith a ddarparwyd a chydweithrediad y swyddog ariannol o safon uchel.

## Rwy’n fodlon bod gan Awdurdod y Parc drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau Awdurdod y Parc i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o’r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi’i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Awdurdod y Parc yn parhau i wynebu heriau ariannol oherwydd y gostyngiadau a ragwelir yn ei incwm o grant parciau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae’r sefyllfa’n cael ei monitro ac rwy’n fodlon ar y camau gweithredu a gymerwyd gan Awdurdod y Parc, a’r rhai y mae’n parhau i’w cymryd, i fynd i’r afael â’r pwysau a wynebir ganddo.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi’i gwblhau ar 30 Medi 2014

Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 yn unol â’r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn fy Amlinelliad o’r Archwiliad Blynyddol. Mae rhagor o wybodaeth yn cael ei pharatoi am y ffi archwilio, fel y trafodwyd o’r blaen, a gaiff ei rhannu â’r Awdurdod yn y cyfarfod ar 23 Ionawr 2015.

Yn gywir



Richard Harries
Arweinydd Ymgysylltu
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu’r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni’r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy’n NEET yn ogystal â’u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy’n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na’r rhai sy’n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a’u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a’r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy’n NEET. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |
| | | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |
| | | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A6 | Sefydlu cyfres o safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer gosodiadau a throsglwyddiadau er mwyn sicrhau bod tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn cael gwasanaeth o safon ofynnol gan eu landlord. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru